

Adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg yr LSB

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o Hydref 2019 i Hydref 2020.
- 1.2. Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB) yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am oruchwylio rheoleiddiad cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr. Ein gweledigaeth yw gwasanaethau cyfreithiol sydd ar gael i bawb ac y mae pawb yn ymddiried ynddynt. Rydym eisiau diwygio a moderneiddio'r farchnad gwasanaethau cyfreithiol trwy osod buddiannau pobl sydd angen gwasanaethau cyfreithiol yng nghalon y system, gan adlewyrchu amcanion y statud a'n creodd, y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 ("yr LSA").
- 1.3. Er bod gan yr LSB raglen eang o waith ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, yn cynnwys gyda darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a'r cyhoedd trwy'r panel cyhoeddus, mae ffocws ein pwerau ar y cyrff rheoleiddio. Mae rheolau a chanllawiau rheoleiddiol a ddatblygwn wedi eu hanelu, ymysg pethau eraill, at sicrhau bod gan y rheolyddion a gymeradwyir lywodraethu mewnol cadarn ac y gallwn orfodi'r rheolau hyn yn effeithiol. ("y Cynllun")
- 1.4 Datblygwyd a chymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg yr LSB yn 2010, yn fuan wedi i'r LSB ysgwyddo ei gyfrifoldebau statudol llawn. Fe adolygom y Cynllun i hysbysu'r adroddiad hwn ac rydym wedi casglu ei fod yn dal yn ateb y gofyn, yn amodol ar fân newidiadau i deitlau swyddi a chyfeiriadau.

1. Cynnydd

- 1.1. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fe wnaethom barhau i ffocysu ar sicrhau y cyflawnir ein cyfrifoldebau yn effeithiol.
- 1.2. Yn ystod 2019/20, buom yn ymgysylltu gydag unigolion a sefydliadau ar draws y sector gyfreithiol yng Nghymru:
 - Ym Mai 2020 fe gomisiynom Dr Adam Wyner, Athro Cyswllt yn y Gyfraith a Gwyddorau Cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Abertawe i baratoi papur a chymryd rhan mewn cyfweiliad podlediad ar sut dylai addysgwyr y gyfraith

a rheolyddion ymateb i'r defnydd cynyddol o dechnoleg i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r papur a phodlediad wedi eu cyhoedd ar [wefan](#) yr LSB.

- Ym Medi 2020, cyfarfu ein Prif Weithredwr newydd, Matthew Hill, gyda Helen Lentle a Neil Buffin o Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn rhan o raglen yr LSB o ymgysylltu â rhanddeiliaid i hysbysu strategaeth newydd ar gyfer y sector gwasanaethau cyfreithiol. Fe ystyriodd y drafodaeth faterion penodol sy'n wynebu'r sector gyfreithiol yng Nghymru, yn arbennig yr amrywiad cynyddol rhwng cyfraith Cymru a Lloegr mewn meysydd ymarfer penodol, a allai arwain at sefyllfa ble mae cwmnïau yng Nghymru mewn safle gwell i gynnig gwasanaethau arbenigol na chwmnïau mwy ar draws y ffin yn Lloegr.
- Clywodd y Prif Weithredwr fod cael mynediad i wasanaethau cyfreithiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn her benodol i ddefnyddwyr yng Nghymru ac y gallai hyn ddod yn broblem ddifrifol wrth i'r nifer o siaradwyr Cymraeg gynyddu yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

1.3. Eleni rydym hefyd wedi asesu cais yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr i gyflwyno fframweithiau addysg a hyfforddiant newydd ar gyfer cyfreithwyr. Gwyddom hefyd bod Comisiynydd yr Iaith Gymraeg ac amrediad eang o randdeiliaid eraill yng Nghymru (yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y Coleg Gymraeg Cenedlaethol, CBAC, y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a'r Gwasanaethau Cyfieithu yn g Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yng Nghaernarfon), wedi bod mewn trafodaethau gyda'r SRA ynghylch sut y gallai'r SRA ddarparu asesiad canolog newydd (Arholiad Cymhwysio Cyfreithwyr, neu SQE) yn y Gymraeg. Cadarnhaodd cais yr SRA am gymeradwyaeth i'r cynllun newydd y bydd yna weithrediad cam wrth gam dros bedair blynedd o'r asesiad yn Gymraeg, gyda'r holl asesiadau ar gael yn Gymraeg o 2025. Mae gennym hyd at 28 Hydref i ddod i benderfyniad ar gais yr SRA.

2. Ymchwil

3.1 Yn Ionawr 2020 fe gyhoeddodd ganlyniadau a dealltwriaeth yn dilyn arolwg 'Anghenion Cyfreithiol Unigolion yng Nghymru a Lloegr' ar y cyd â Chymdeithas y Cyfreithwyr. Roedd y casgliadau yn seiliedig ar arolwg o 28,663 o oedolion yng Nghymru a Lloegr (1,630 yng Nghymru). Fe nododd fynychder dros 30 math gwahanol o faterion cyfreithiol, gan fesur tair agwedd galluedd cyfreithiol, ffynonellau cyngor cyfreithiol a ddefnyddiwyd a'r dehongliad o degwch y canlyniad. Roedd hefyd yn amcangyfrif y nifer o anghenion cyfreithiol na fodlonwyd. Roedd canlyniadau yng Nghymru yn debyg i'r rhai yn Lloegr, er bod oedolion yng Nghymru yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfreithiwr fel eu prif gynghorydd ac i ganfod chwilio am wasanaethau'n hawdd, ond yn llai tebygol o chwilio am neu gaffael manylion gwasanaethau neu brisiau wrth chwilio am ddarparwr. Gellir gweld cymhariaeth rhwng Cymru a Lloegr yn atodiad D yr [adroddiad technegol](#).

3.2 Mae'r LSB wedi datblygu [dangosfwrdd](#) ar-lein i ddynodi effaith Covid-19 ar alw am wasanaethau cyfreithiol ac ar 'iechyd' darparwyr a'r system cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr.

3.3 Yn Awst 2020, cyhoeddodd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfreithiol [Arolwg Tracio](#) Panel Defnyddwyr 2020, oedd yn cynnwys 167 ymateb gan ddefnyddwyr yng Nghymru.

3.4 Ym Medi 2020, fe gyhoeddodd yr LSB a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymchwil ar y cyd i ['Brisiau Gwasanaethau Cyfreithiol Unigol i Ddefnyddwyr yng Nghymru a Lloegr 2020: Cam 3 o arolwg i brisiau gwasanaethau cyfreithiol a ddefnyddir yn aml'](#). Roedd yr ymchwil yn dangos bod y prisiau a godwyd ar gyfer trawsgludo, ysgariad ac ewyllysiau, ymddiriedolaethau a phroffiant yn aml yn sylweddol rhatach yng Nghymru o gymharu â Llundain a de ddwyrain Lloegr.

4. Ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg

4.1 Yn 2019/ 20 ni dderbyniom unrhyw adborth o'r cyfarfodydd y cyfeiriwyd atynt dan adran 2.2 Deddf Yr Iaith Gymraeg a fyddai angen eu hadlewyrchu mewn polisïau yn y dyfodol neu adolygiadau yn y dyfodol o'n Cynllun Iaith Gymraeg.

4.2 Yn 2019/20, ni dderbyniom unrhyw alwadau ffôn gan sefydliadau nac unigolion oedd eisiau siarad Cymraeg.

4.3 Ble gwnaethpwyd diweddariadau i'n gwefan ac i'r ymateb awtomatig ar gyfer ein swyddogaeth ymholiadau, rydym wedi adlewyrchu'r newidiadau hyn yn y cyfieithiadau Cymraeg.

5. Edrych ymlaen

5.1 Bwriadwn gyfieithu ein *Dogfen Strategaeth, Cyfrol Naratif* sydd i ddod i Gymraeg yn Rhagfyr 2020. Mae ein hadroddiad Cyflwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynnig asesiad seiliedig ar dystiolaeth o gyflwr gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn 2020. Fel y rheolydd trosolwg ar gyfer Cymru a Lloegr, mae'n bwysig ein bod yn talu sylw dyledus i'r cyfleoedd a heriau mae'r sector yn wynebu yng Nghymru. Mae ein hadroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i asesu cyflwr y sector yng Nghymru, gan nodi unrhyw wahaniaethau a thebygolrwydd.

5.2 Rydym yn bwriadu trefnu rhith ddigwyddiad rhanddeiliad gyda ffocws ar Gymru yn ystod y gwanwyn 2021.

6. Casgliad

6.1 Mae gweithgaredd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn arddangos er mai cyfleoedd prin sydd ar gyfer hyrwyddiad mwy gweithredol o'r Gymraeg o ganlyniad i'n cylch gorchwyl, mae'r LSB yn parhau i fod yn ystyrlon o'i

ymrwymiadau dan y Cynllun Iaith Gymraeg ac i geisio cyfleoedd i ymgysylltu'n fwy eang gyda'r gymuned yng Nghymru.

Hydref 2020

Atodiad

1: Adolygiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol 2019-2020

Rhan	Gweithred	Meini Prawf Llwyddiant	Diweddariadau	Gweithredu Pellach
3. Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn cyflwyno gwiriadau i'r broses datblygu polisi i sicrhau yr ystyrir y Gymraeg ac i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i atal y rheolyddion cymeradwy rhag defnyddio'r Gymraeg wrth gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. 	<ul style="list-style-type: none"> Polisiâu, mentrau a gwasanaethau yn gyson ag ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg 	<p>2019/20</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparwyd hyfforddiant desg gloywi i bob aelod o staff yn cynnwys dechreuwy'r newydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Nid oes angen
4.1. Gohebiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed gohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg: <ul style="list-style-type: none"> Y gofyniad i ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg o fewn yr un cyfnod amser ag ar 	<ul style="list-style-type: none"> Ymatebir i ohebiaeth Cymraeg yn Gymraeg o fewn yr un cyfnod o amser â chyfathrebu arall. 	<ul style="list-style-type: none"> 2019/20 Ni dderbyniwyd gohebiaeth yn Gymraeg yn unig. 	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn parhau i ymateb i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg

	<p>gyfer gohebiaeth arall.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ein bod yn cychwyn cyfathrebu ag unigolion, grwpiau neu sefydliadau yn Gymraeg os gwyddom mai dyma yw eu hiaith ddewisol. <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn sefydlu cronfa ddata o'r sefydliadau hynny sydd eisiau i ni ddelio â nhw trwy gyfrwng y Gymraeg. • Bydd cyfathrebu a dderbynnir trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gofnodi ar ein Cofrestr Cyfathrebu bresennol gan fonitro'r amser a gymer i ymateb. 			
4.2. Galwadau Ffôn	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed delio â galwadau ffôn yn Gymraeg: <ul style="list-style-type: none"> ○ Y gofyniad i gynnig yr opsiwn o 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gan gydweithwyr ddealltwriaeth glir o sut i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg. 	<p>2019/20</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni dderbyniwyd galwadau yn Gymraeg. • Ail ddosbarthwyd hyfforddiant desg yn 2019/20 i sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau parthed delio â galwadau ffôn yn Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen

	ysgrifennu neu anfon e-bost atom yn Gymraeg neu barhau gyda'r sgwrs yn Saesneg i unrhyw un sy'n ein ffonio ac sydd eisiau gallu siarad Cymraeg.			
4.3. Cyfarfodydd	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg: <ul style="list-style-type: none"> ○ Rhaid hysbysebu cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg a gofyn i fynychwyr roi gwybod i ni o flaen llaw beth yw eu hiaith ddewisol ○ Canllaw i helpu cydweithwyr i benderfynu p'un a oes angen cyfleusterau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan gydweithwyr ddealltwriaeth glir o'r cyfleusterau cyfieithu y dylid eu cynnig mewn cyfarfodydd yng Nghymru. 	2019-20 <ul style="list-style-type: none"> • Ail ddsbarthwyd hyfforddiant desg yn 2019/20 i bob aelod o staff yn cynnwys dechreuwyr newydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen

<p>4.4. Hunaniaeth Gorfforaethol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cyfieithu templedi a phapur pennawd cwbl ddwyieithog i'w defnyddio yng Nghymru ac ar gyfer dogfennau a ddefnyddir yng Nghymru. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynir hunaniaeth gorfforaethol gyson ar unrhyw ddogfennaeth a gyflwynir yn Gymraeg neu Saesneg 	<p>2019/20</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchwyd gohebiaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn Gymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen
<p>4.5. Cyhoeddiadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed cyfieithu cyhoeddiadau i'r Gymraeg: <ul style="list-style-type: none"> ○ Canllaw i bennu pa gyhoeddiadau a ddylid eu cyfieithu i'r Gymraeg. ○ Sicrhau pan fydd polisïau newydd yn cael eu llunio neu ddogfennau'n cael eu drafftio, yr ystyrir oblygiadau ieithyddol cyfieithiadau posibl. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan gydweithwyr ddealltwriaeth glir o bryd ddylid cyfieithu dogfen i'r Gymraeg ac y gweithredir ymagwedd gyson ledled y sefydliad. • Cyhoeddir dogfennau sydd wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg ar ddiwyg dwyieithog neu ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg ble fo hyn yn ymarferol. • Cyflwynir dogfennau i'w cyflwyno yn Gymraeg i'r un safon â'r fersiynau Saesneg. 	<ul style="list-style-type: none"> • 2019/20 Ni chynhyrchwyd unrhyw gyhoeddiad na gohebiaeth yn Gymraeg • Bydd y Ddogfen Strategaeth Newydd, Rhifyn Naratif yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen

4.6. Hysbysiadau i'r Wasg	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau, ble fo amser yn caniatáu, y cyhoeddir datganiadau i'r wasg a chyfryngau darlledu Cymraeg a Saesneg yng Nghymru yn ddwyieithog ar yr un pryd os yw'r dyddiadau cau yn caniatáu hynny. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan gydweithwyr ddealltwriaeth glir o ba bryd a ddylid cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn Gymraeg neu ddwyieithog ac fe weithredir ymagwedd gyson ledled y sefydliad. 	<p>2019/20</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni fu angen unrhyw ddatganiadau i'r wasg Cymraeg na dwyieithog 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen
4.7 Recriwtio	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn sicrhau fod ein hymroddiadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg wedi eu hadlewyrchu yn ein polisi recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Os bydd LSB yn gosod hysbysebion recriwtio mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg a ddsberthir ar y cyfan neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, byddant yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. ○ Gosod hysbysiadau Cymraeg mewn 	<ul style="list-style-type: none"> • Adlewyrchir yr ymroddiadau a wneir yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn ein polisi recriwtio. • Mae cydweithwyr yn ymwybodol o ac yn deall ein cyfrifoldebau recriwtio dan y Cynllun Iaith Gymraeg. 	<p>2019/20</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid ydym wedi gosod unrhyw hysbysebion recriwtio mewn unrhyw gyhoeddiadau Cymraeg na chyhoeddiadau Saesneg a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen

	<p>cyhoeddiadau Cymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Y gofyniad i sicrhau fod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran diwyg, maint, ansawdd ac amlygrwydd. 			
4.8. Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd a Hysbysebion	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed lansio ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn Gymraeg: <ul style="list-style-type: none"> ○ Y bydd yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei gynhyrchu'n gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. ○ Cyhoeddir hysbysebion cyffredinol nad ydynt i ddiben 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cydweithwyr yn deall pryd fydd angen cynhyrchu deunydd yn Gymraeg, ac fe weithredir ymagwedd gyson ledled y sefydliad os yw ymgyrchoedd hyrwyddo a hysbysebu yn cael eu lansio yn Gymraeg. 	<p>2019-20</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd angen unrhyw weithredoedd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen

	<p>recriwtio ac sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd yng Nghymru neu o bwys mawr i gyhoedd Prydain Fawr, fel fersiwn ddwyieithog yn y wasg Gymraeg</p>			
--	--	--	--	--

4.9. Gwefan

- Wrth ddylunio gwefan newydd, neu wrth ailddatblygu'r wefan gyfredol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg* ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd

<p>4.10 Hysbysiadau Swyddogol a Hysbysiadau Cyhoeddus</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pob hysbysiad swyddogol a chyhoeddus i'w cyhoeddi neu osod mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gan staff ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau wrth ddefnyddio hysbysiadau swyddogol neu gyhoeddus mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru. 	<p>2019-20</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd angen unrhyw weithredu yn ystod y cyfnod adrodd hwn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen
<p>5. Gweithredu'r Cynllun</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Fe gynhyrchir canllaw mewnol i gydweithwyr i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o amodau'r cynllun ac yn deall eu cyfrifoldebau dano. • Trefnir sesiwn hyfforddi i gydweithwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun – ac er mwyn egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd. • Bydd cyfathrebu a dderbynnir trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gofnodi ar ein Cofrestr Cyfathrebu bresennol gan fonitro'r amser a gymer i ymateb. • Byddwn yn contractio gwasanaethau cyfieithydd cwbl gymwysedig i helpu i gyflenwi agweddau o'r cynllun. • Cofnodir y ceisiadau am sgysiau ffôn a'r nifer o adegau y ceisir y dewis i siarad Cymraeg mewn 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cynhyrchu a dosbarthu canllaw mewnol i staff. • Bydd cydweithwyr yn deall eu cyfrifoldebau dan y Cynllun Iaith Gymraeg yn llwyr • Bydd yr ymrwymadau a wneir yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu gweithredu'n gyson ledled y sefydliad gan bob cydweithiwr. 	<p>2019-20</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ail ddosbarthwyd hyfforddiant desg i sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau parthed y Cynllun Iaith Gymraeg • Pob aelod o staff wedi derbyn copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg o'r newydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen

	cyfarfod yng Nghymru er mwyn i ni allu monitro'r nifer o achosion y derbynnir ceisiadau o'r fath ac adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg fel fo angen.			
6. Monitro'r Cynllun	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn monitro'n perfformiad wrth fodloni'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun a chofnodi'r galw am wasanaethau Cymraeg, yn cynnwys unrhyw alw am wasanaethau sy'n mynd tu hwnt i'r ymrwymadau yr ydym wedi eu gwneud. Pob Hydref bydd yr LSB yn darparu Bwrdd yr Iaith Gymraeg â ffurflen asesu gyflawn yn asesu perfformiad o ran gweithredu'r Cynllun. Bydd yr uwch dîm rheoli yn cytuno ar yr adroddiad cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd cynnydd ar weithredu'r ymroddiadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys ym mhroses rheoli perfformiad yr LSB. Bydd yr LSB yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf a gytunwyd ac yn brydlon. 	2019-20 <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd angen unrhyw weithredoedd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd yr LSB yn parhau i fonitro unrhyw ddatblygiadau parthed y gofynion y Gymraeg